monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

## Hysbysiad o gyfarfod:

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 19eg Ionawr, 2017 at 2.00 pm,
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn** | 1 - 2 |
| 3. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 4. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| 5. | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2016** | 3 - 10 |
| 6. | **Nodi rhestr weithredu y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2016** | 11 - 12 |
| 7. | **Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio:** | |
| 7.1. | **Pwyllgor Archwilio 17 Tachwedd 2016** | 13 - 22 |
| 7.2. | **Pwyllgor Archwilio 15 Rhagfyr 2016** | 23 - 34 |
| 8. | **Rhestr o Gynigion** | |
| 8.1. | **Cynnig gan y Cynghorydd Sir R.J.W. Greenland**<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn croesawu'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Ei Mawrhydi y caiff tollau ar gyfer Pontydd Hafren eu haneru yn 2018. Ymhellach rydym yn cefnogi dileu'r holl dollau ar gyfer y ddwy bont gyda chostau cynnal a chadw y dyfodol yn cael eu talu o gyllideb gyffredinol | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnal a chadw ffyrdd y Deyrnas Unedig.<br><br>Roedd twristiaeth yn werth £187 miliwn i economi Sir Fynwy, gydag ymweliadau dydd wedi cynhyrchu £53 miliwn Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu pan gaiff tollau eu gostwng neu eu dileu o gofio am dystiolaeth anecdotaidd fod tollau'n atal traffig coetsis ymwelwyr ac ymwelwyr dydd a thystiolaeth arolwg y dywedodd 22% o breswylwyr de orllewin Lloegr y byddent yn disgwyl gwneud mwy o ymweliadau i Gymru yn y deuddeg mis nesaf pe byddai tollau Hafren yn cael eu dileu.<br><br>Gan fod gan ymwelwyr dydd y potensial i gefnogi'r sector manwerthu annibynnol llewyrchus yn ne Sir Fynwy, mae hyn yn rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer adfywio ein stryd fawr, llinyn allweddol yn ein gweithgareddau datblygu economaidd. Drwy ein cysylltiadau rheolaidd gyda sefydliadau masnach a busnes yn y Sir byddwn yn parhau i weitho mewn partneriaeth i ddatblygu twf cynaliadwy yn y Sir.<br><br>Yn rhanbarthol, byddwn yn parhau i chwarae ein rhan yn natblygiad Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd adfywio economaidd ar ganol y llwyfan yn nyfodol Sir Fynwy, gan ddod â chyfleoedd newydd ar gyfer cynyddu ffyniant ledled y rhanbarth yn arbennig yng nghwmnïau technoleg newydd y dyfodol.<br><br>Ar yr un pryd rydym yn cydnabod y gallau gostwng tollau ddod ag anfanteision i Sir Fynwy. Byddwn yn parhau i fonitro pob problem bosibl a gweithredu'n unol â hynny i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy.<br><br>Mae'r Cyngor hwn felly'n ailgadarnhau ein bwriad i barhau i hyrwyddo Sir Fynwy fel y lle i adeiladu busnes o fewn de Cymru a gorllewin Lloegr tra hefyd yn hyrwyddo de Sir Fonwy fel cyrchfan siopa ansawdd uchel. Caiff y gweithgaredd hyrwyddo hwn ei gynyddu yn y misoedd i ddod wrth i'r gostyngiad yng nghost tollau ddod yn agosach. | |
| **9.** | **Adroddiad Pennaeth Democratiaeth, Ymgysylltu a Gwella** | |
| **9.1.** | **Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022** | 35 - 70 |
| **10.** | **Adroddiad Pennaeth Cyllid** | |
| **10.1.** | **Cynllun Gostwng Treth Gyngor 2017/18** | 71 - 74 |
| **11.** | **Adroddiad y Swyddog Monitro** | |
| **11.1.** | **Pwyllgor Safonau - Penodi Aelodau Annibynnol** | 75 - 76 |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | D. Batrouni |
| | J. Prosser |
| | D. Blakebrough |
| | M. Powell |
| | V. Smith |
| | G. Burrows |
| | R. Chapman |
| | P. Clarke |
| | J. Crook |
| | D. Dovey |
| | G. Down |
| | A. Easson |
| | D. Edwards |
| | R. Edwards |
| | D. Evans |
| | P. Farley |
| | P.A. Fox |
| | J. George |
| | R.J.W. Greenland |
| | L. Guppy |
| | E. Hacket Pain |
| | R. Harris |
| | B. Hayward |
| | M. Hickman |
| | J. Higginson |
| | P.A.D. Hobson |
| | G. Howard |
| | S. Howarth |
| | D. Jones |
| | P. Jones |
| | S. Jones |
| | S.B. Jones |
| | P. Jordan |
| | J. Marshall |
| | P. Murphy |
| | B. Strong |
| | F. Taylor |
| | A. Watts |
| | P. Watts |
| | A. Webb |
| | S. White |
| | K. Williams |
| | A. Wintle |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

**<u>Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni</u>**

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

**<u>Ein blaenoriaethau</u>**

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

**<u>Ein gwerthoedd</u>**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.